1.
Young Dylan is out walking his dog on the 24th night of December, the eve before Christmas. It's the bowels of winter. Snow quilts the streets, houses and cars of Caernarfon, like a layer of icing on a Christmas cake. As it should be everywhere in Wales at Christmas.
The boy enjoys the satisfying crunch under his feet, the sifting soft of his dog's paw prints in the snow. Frosty air is warmed by the colours and lights dancing around him as he makes his way up the road. Dylan stops to admire a handmade snowman - donning a tall black hat.
A smaller snowman nearby is dressed in fairy wings and a tutu. It leans a little to the left, taking a small bow. This time of year, street lamps shine a little brighter, unwilling to be outdone by the flickering lanterns and fairy lights that necklace the houses Dylan and his dog pass on their walk. Laughter catches his eye and he turns to an open window - a Christmas Eve feast in full swing! The dinner table is a chaos of sparkly red tinsel and leftover vegetables.
Around the perimeter circles torn silver paper admired then discarded for the presents inside. A little girl hugs her new toy penguin, pretending to feed it mashed potato from her fork. The rest of the cheerful gathering nibble at the delicacies strewn across the table: A french fancy, a stray yorkshire pud, a spiced biscuit - the normal order of eating abandoned for as the feast of Christmas Eve continues until someone opens the lid on Nan's piano and the carol singing begins. Not everyone knows the words but that is not the point.
In the early hours the gathering moves to the church down the road, taking turns, where no song is repeated. The little girl snoozes, holding onto her cuddly penguin as the songs fragrance every corner of the church. Others, enticed by the sound of harmonies in the cold night air enter, asking if they can join too. Voices rise and flow and all are grateful for singing in dark times.

2.
She sends a silent prayer that there is no ice in the park this year. The runner admires Ynysangharad park, wearing her winter dress. Subtle but still pretty, she thinks. An understated outfit compared to the loud patterns of summer. A couple strolling towards her step aside on the path so she does not have to break her stride. It's as if they know how important this ritual is, this gentle kiss to the morning - a light run by herself is how she starts every Christmas day. She tries to run most weeks but the weather or life admin sometimes makes her trainers far too sticky to make the move from her cosy home to the park. But today she needs this. This faithful rhythm ushers in the start of what is always a hectic but joyful day. She's on the home stretch now, enjoying the steady beat of her trainers on the path, the pulse of the day awakening with every step. She finishes her run in an efficient loop back towards the car. Glistening with cold sweat, she smiles, warmed up and ready for the marathon that awaits today.

3.
Three times the children burst into the room, bouncing about with bright eyes and hopeful smiles. Three times is too much to refuse so the sleepy parents agree it's time to wake up, go downstairs and start their Christmas morning. Like sprightly elephants they tumble down the stairs but before entering the room, knobbly half-eaten carrots catch their eye.
"Oh my gosh! Is it? Has he been?!"
They sprawl into the living room, a sea of excitement. Wide-eyed they examine the large bite taken out of the mince pie they had left out for Father Christmas the night before. A drained sherry glass sits by its side. The children's parents share a look, in love with the ways of children so willing to believe in wonder.
"Can we open them Mam? Can we?"
She gives the slightest of nods and they dive for the presents. The room transforms in a flurry of patterned wrapping paper fluttering like butterflies that land on the ground. Kites that have lost their wind. The 'whoosht' of crisp torn paper becomes gasps, oohs and aahs.
Parents exchange their own careful presents, a mix of Useful and Useless things. They sit back, satisfied, watching their children's joy spread across the room like ivy.

4.
It begins with the rustling of cutlery and careful placing of the best plates, pretty napkins, crackers - tablescapes of art. A voice calls from the kitchen wanting hands to help and carry. Some will try to look busy, others will purposely hide. Novelty jumpers are today's uniform with aprons for the cooks. One lovingly douses the turkey just once more - its been cooking forever today. Another stirs the gravy, testing if there's enough salt. Oh no! The carrots have caught! That honey's gone black and burnt! Quick someone peel some more - return of the carrots! Take Two! But today, every crisis is overcome, every facet of the feast now complete. Cheerful chaos flows from kitchen to table, prawns and pink sauce kick off the Christmas festivities, crackers are pulled and terrible jokes told. Paper hats rest jauntily on eager heads, except for Grampy - his hat won't fit so he chooses a tinsel headband instead!
As always the way one of the children's cracker gifts is a plastic harmonica - adults around the table gauge how soon they can whisk the noisy toy away without conjuring tears.
The table fills up with steaming greens and carrots, piles of crunchy potatoes, parsnips and cauliflower. A voice from the end of the table shouts "I don't like sprouts!"
"You'll have two, they're good for you!" comes the reply. Taste the salt, the mint, the thyme perfuming the air. A cacophony of voices, plus that bloody plastic harmonica, stills at the sound of those magnificent words from the kitchen - "I'm bringing in the turkey".
Impatient hands drum at the table, others clink their cutlery, laying napkins on laps, tucked into collars - the turkey arrives to a fanfare, the guest list complete - and the Christmas feast begins!

5.
Another festive dinner is coming to an end. A band of found friends are having a safari supper - each course enjoyed at a different house across the city. They started in Splott with pumpkin soup and samosas. Then a mushroom wellington main in Mynachdy. Now they rest their sated stomachs in a living room in Riverside. A fire happily mutters away as some of the guests snooze, friends laugh and share stories, warming each other like the remembered days of summer. This course's host is in the kitchen preparing dessert - whipping double cream to top a trifle, melting chocolate for a mousse. Oh so carefully they place gold-tipped raspberries on a cake as someone hovers, spoon in hand, hoping for the first taste. And wow! When things are made with kindness, how it sweetens the dish.
No gifts are exchanged for friendship is the expense here - offered and received with gratitude. The host rouses their sleepy guests with the faintest tinkling of a glass - time for a toast to the bonds of trust, of showing up in tough times: To chosen family!

6.
Paramedics bluster their way into the bedroom - not the usual way to spend a Christmas afternoon! Half peeled clementines lie discarded and the television's festive offering is ignored as the patient winces in pain. A suspected heart attack, they work quickly. His partner watches, holding her breath, a forgotten clementine segment in her hand. The man's breath settles, supported by apparatus. Hurried into the metal jaws of the waiting ambulance by careful hands and the blue lights blind the reds greens and golds of fairy lights since no one has time to admire them in this moment. Zooming through the city, his partner prays to soon see the sign for Glangwili Hospital as every second counts. Some time later, he is stable. The panic and worry somewhat settled. Together, the couple are a tender little world, sat there sipping lukewarm tea in a room not their bedroom. They hold hands across bedsheets and worry, not knowing but settling for hope. In the company of loyal ward nurses foregoing their own Christmases, and sleep, still blossoming with care for this man, his partner, and the thousands of others unluckily missing their Christmas afternoons across Wales.

7.
Fleece jackets and coats huddle on the damp sand of Aberystwyth beach as the swimmers hesitate at the shoreline. Who will be brave? The initial touch, of toe to ocean thunderbolts from their feet to the top of bobble hats.
"Should I have worn a wetsuit?"

“Maybe this isn't such a good idea - i’m still stuffed from dinner!”
“Come on! We can’t break tradition now!”
1-2-3 - with linked shivering hands they jump into the winter waves. They screech and laugh, whooping like children, so alive their joy infects the onlookers who applaud from the promenade. The swimmers’ bodies acclimatise and they launch under the waves, swooping back towards the shore, bobbing and floating along with the inhale, exhale of the crisp Christmas Day current. For a moment they are carefree again. Unbeaten by the dull daily lumbering, by emails or bills or fights over the dishes. Nothing matters as they watch the sun recede. Held by the water in this weightless moment. They simply exist in joyous time, their hearts at once light and full. Remember this, they whisper.

8.
The 25th rolls up its bright carpet and night spills across the land. Golden lamps switch on and candles of cinnamon spice, apple and mulberry light through the house. Cold cuts of today’s earlier meal garnish a colourful map of olives, dates, nuts, cheese, biscuits, chocolates, fruit, pickles and all the tastes of a sweetened day. For this is a moment of more, of one more, of let’s share, oh go on - guilt free gorging. Tensions of the day dissipate and cracked conversations can wait for tomorrow. But where is young Dylan? Our friend and his dog are out again, walking on Christmas night. It’s a cold one. His breath echoes in front of him but, wrapped in the scarf his aunty’s crochet gift and the designer jumper he had on his wishlist, he is warmed from within. Dylan and his dog trot along, a spring easing their steps around the neighbourhood.
The boy looks up at the night sky and finds that he has become a star. A treasure that still serenades Welsh winters with his words. Words that glitter above all the gorgeous colours and music of Christmas across Wales.

1.
Mae Dylan allan yn cerdded ei gi ar bedwaredd noson ar hugain mis Rhagfyr – noswyl Nadolig. Mae'n ganol gaeaf, a'r eira'n gorwedd fel cwilt dros strydoedd, tai a cheir tref Caernarfon, fel haen o eisin ar gacen Nadolig. Yn union fel y dylai fod ym mhobman yng Nghymru adeg y Nadolig.
Mae'r bachgen wrth ei fodd yn clywed y sŵn crenshlyd dan ei draed, a siffrwd ysgafn pawennau ei gi yn yr eira. Cynhesir yr awyr rewllyd gan y lliwiau a'r goleuadau sy'n dawnsio o'i gwmpas wrth iddo gerdded i fyny'r ffordd. Y tu allan i un o'r tai saif dyn eira mewn het ddu dal, ac mae Dylan yn aros am ychydig i'w edmygu.
Gerllaw, mae dyn eira llai o faint yn gwisgo adenydd tylwythen deg a thwtw. Mae'n gwyro ychydig i'r chwith, fel petai'n ymgrymu. Yr adeg hon o'r flwyddyn, mae lampau'r stryd yn goleuo ychydig yn fwy disglair, mewn cystadleuaeth â'r goleuadau Nadoligaidd lliwgar sy'n creu cadwyn o fwclis o gwmpas y tai mae Dylan a'i gi yn cerdded heibio iddynt. Wrth glywed sŵn chwerthin mae'n troi tuag at ffenestr agored – gwledd Noswyl Nadolig yn ei hanterth! Mae'r bwrdd cinio'n siang-di-fang o dinsel coch disglair, a gweddillion gwahanol lysiau. O gwmpas y bwrdd mae darnau toredig o bapur arian a edmygwyd i ddechrau, ac yna'i rwygo i dyrchu at yr anrheg oedd yn cuddio y tu mewn. Mae merch fach yn cwtsio'n phengwin meddal newydd, gan esgus ei fwydo â thatws oddi ar ei fforch, tra bod gweddill y cwmni llawen yn mwynhau'r danteithion a wasgarwyd ar draws y bwrdd: cacen ffansi, un pwdin swydd Efrog bach unig, bisged sbeislyd – mae'r drefn arferol o fwyta'n cael ei hanghofio wrth i'r wledd Noswyl Nadolig barhau, nes bod rhywun yn codi'r clawr ar biano Nain ac mae'r canu carolau'n dechrau. Er nad yw pawb yn gwybod y geiriau, nid dyna'r pwynt. Yn oriau mân y bore, mae'r cwmni'n symud tuag at yr eglwys i lawr y ffordd, a chymryd eu tro i ganu gan ofalu nad oes unrhyw gân yn cael ei hailadrodd. Mae'r ferch fach yn pendwmpian, gan gwtsio'i phengwin yn dynn wrth i'r canu esgyn i'r entrychion. Mae pobl eraill yn mentro i mewn, wedi eu denu gan sain hyfryd yr harmonïau yn awyr oer y nos, a gofyn a gânt hwy ymuno hefyd. Mae'r lleisiau'n codi a llifo, a phawb yn ddiolchgar am y cyfle i ganu mewn cyfnodau tywyll.

2.
Gobeithio nad oes yna rew yn y parc eleni – dyna yw ei gweddi dawel. Mae'r rhedwraig yn edmygu Parc Ynysangharad mewn gwisg aeafol. Cynnil ond pert iawn, meddylia, o'i gymharu â phatrymau welwch-chi-fi yr haf. Mae cwpl sy'n cerdded tuag ati yn camu i ochr y llwybr fel nad oes raid iddi addasu ei cham. Mae fel petaen nhw'n gwybod pa mor bwysig yw'r ddefod fach yma, y gusan dyner hon i'r bore – mae hi'n dewis dechrau pob dydd Nadolig gyda rhediad rhwydd ar ei phen ei hun. Mae'n gweud ei gorau glas i redeg bron bob wythnos, ond weithiau mae'r tywydd neu broblemau bob-dydd yn gwneud ei hesgidiau rhedeg yn llawer rhy ludiog i'w denu i adael ei chartref clyd am y parc. Ond heddiw mae arni angen hyn. Mae'r rhythm ffyddlon yn cyhoeddi dechrau'r hyn sydd wastad yn ddiwrnod llawn cynnwrf, ond hapus. Mae hi bron iawn adref erbyn hyn, yn mwynhau curiad cyson ei hesgidiau rhedeg ar y llwybr, a phŷls y dydd yn deffro gyda phob cam. Daw ei rhediad i ben mewn dolen effeithiol yn ôl at y car. A'i hwyneb yn pefrio â chwys oer, mae hi'n gwenu . . . mae'n gynnes braf ac yn barod ar gyfer y farathon sydd o'i blaen hi heddiw.

3.
Mae'r plant eisoes wedi rhuthro i mewn i'r ystafell deirgwaith gan neidio o gwmpas, eu llygaid yn ddisglair a gwên obeithiol ar eu hwynebau. Mae teirgwaith yn ormod i'w anwybyddu, felly mae'r rhieni cysglyd yn cytuno ei bod yn amser codi a mynd i lawr y staer i

ddechrau eu bore Nadolig. Fel eliffantod bach bywiog, mae'r plant yn stryffaglu i lawr y staer – ond cyn iddynt fentro i mewn i'r ystafell, mae gweddillion y moron yn dal eu llygad.
"Waw! 'Drycha! Ydy e . . .? Ydy e wedi bod . . .?!"
Maen nhw'n rhuthro i mewn i'r ystafell fyw, yn fôr o gyffro, gan syllu mewn rhyfeddod ar y fins-pei a adawyd ar gyfer Siôn Corn y noson cynt – roedd darn mawr ohoni wedi cael ei bwyta! Wrth ochr y plât mae gwydryn sieri, a hwnnw'n wag. Mae rhieni'r plant yn edrych ar ei gilydd dan wenu, wrth weld y plant mor barod i gredu mewn hud a lledrith.
"Gawn ni eu hagor nhw, Mam? Gawn ni?"
Does ond angen i Mam nodio'i phen, ac ar amrantiad maen nhw'n cythru am yr anrhegion. Mae'r ystafell yn trawsnewid mewn cawod o bapur lapio lliwgar sy'n siffrwd fel ieir bach yr haf cyn cwympo i'r llawr. Barcudiaid sydd wedi colli'u gwynt. Sŵn 'whssh' y papur toredig yn datblygu'n 'www!', 'ooo!' ac 'aaa!'. Mae'r rhieni'n cyfnewid eu hanrhegion gofalus eu hunain – cymysgedd o Bethau Defnyddiol a Phethau Di-fudd. Eisteddant yn ôl yn fodlon, gan wylio llawenydd eu plant yn ymestyn ar draws yr ystafell fel eiddew.

4.
Mae'r cyfan yn cychwyn gyda chlec wrth i'r cyllyll, ffyrc a llwyau, y llestri gorau, y napcynnau pert a'r cracyrs – celfyddyd ar fwrdd – gael eu gosod yn eu lle. Daw llais o'r gegin yn gofyn am ddwylo ychwanegol i helpu a chario. Bydd rhai'n ceisio edrych yn brysur, ac eraill yn chwilio'n slei bach am le i guddio. Siwmperi Nadoligaidd mae pawb yn eu gwisgo heddiw, gyda ffedogau ar gyfer y cogyddion. Mae un yn iro'r twrci'n ofalus am y tro olaf, ac yna'n blasu'r grefi i weld a oes angen rhagor o halen. O na! Mae'r moron wedi cydio yng ngwaelod y sosban, a'r mêl wedi llosgi'n llanast du! Brysiwch, rhywun, ewch i blicio rhagor! Ond heddiw, mae pob argyfwng yn tawelu, a phob elfen o'r wledd bellach yn gyflawn. Mae anhrefn llawen yn llifo o'r gegin i'r bwrdd, y corgimychiaid mewn saws pinc yn cael eu gweini, y cracyrs yn clecian yn uchel, a jôcs gwael yn cael eu rhannu. Heblaw am Tad-cu, mae pawb yn gwisgo het bapur – gan nad yw ei het e'n ffitio, mae'n dewis lapio darn o dinsel am ei ben!
Fel sy'n digwydd bob blwyddyn, mae un o'r plant yn cael harmonica plastig yn ei gracyr – a'r oedolion yn dyfalu sut orau i gael gwared â'r tegan swnllyd heb achosi dagrau. Mae'r bwrdd yn llenwi â llysiau blasus – dysglau o lysiau gwyrdd a moron, pentyrrau o datws euraid, pannas a blodfresych. Daw llais cwynfanllyd o ben y bwrdd, "Dwi ddim yn hoffi sbrowts!"
"Byta nhw – maen nhw'n dda i ti!" yw'r ateb swta. Blaswch yr halen, y mint, y teim sy'n llenwi'r aer ag arogl hyfryd. Mae'r cacoffoni o leisiau, ynghyd â'r blydi harmonica plastig, yn tawelu pan ddaw'r geiriau bendigedig hynny o'r gegin – "Dwi'n dod â'r twrci i mewn!" Mae'r rhai diamynedd yn drymian eu dwylo ar y bwrdd, ac eraill yn codi eu cyllell a fforch, a gosod eu napcyn ar y bwrdd, neu yn eu coleri. Daw'r twrci i mewn i sŵn bonllefau uchel, mae'r rhestr o westeion yn gyflawn – ac mae gwledd y Nadolig yn dechrau!

5.
Mae cinio dathlu arall yn dod i ben wrth i griw o ffrindiau fwynhau swper saffari – gyda phob cwrs yn cael ei weini mewn tŷ gwahanol ar draws y ddinas. Dechreuwyd y daith yn y Sblot, gyda chawl pwmpen a samosas. Yna'r prif gwrs, sef Wellington Madarch, ym Mynachdy. A nawr maen nhw'n gorffwys eu boliau gorlawn mewn ystafell fyw yng Nglan yr Afon. Mae tanllwyth o dân yn rhuo'n swnllyd ar yr aelwyd wrth i rai o'r gwesteion bendwmpian, chwerthin a rhannu straeon, gan gynhesu ei gilydd fel dyddiau anghofiedig yr haf. Mae'r un sy'n gyfrifol am y cwrs yma yn y gegin yn paratoi'r pwdin – chwipio hufen dwbl i'w roi ar ben treiffl, a thoddi siocled i wneud mŵs. Yn ofalus iawn, gosodir mafon wedi'u dipio mewn

powdr aur ar ben cacen wrth i westai hofran yn obeithiol o gwmpas, ei lwy'n barod i fachu'r gegaid gyntaf. A waw! Pan gaiff pethau eu creu â charedigrwydd, mor felys yw'r saig. Does neb yn cyfnewid anrhegion, gan mai cyfeillgarwch yw'r anrheg yn y fan yma – yn cael ei chyflwyno a'i derbyn yn ddiolchgar. Trwy dincian y gwydrau gwin yn ysgafn, mae'r lletywr yn deffro'r gwesteion cysglyd – mae'n bryd cael llwncdestun i rwymau ymddiriedaeth, i droi lan mewn cyfnodau anodd: I'r teulu dewisol!

6.
Mae'r parafeddygon a'u hoffer yn stryffaglu i mewn i'r ystafell wely – nid dyma'r ffordd arferol i dreulio prynhawn dydd Nadolig! Anghofir am y darnau o groen oren sydd heb eu clirio, ac anwybyddir y rhaglen Nadoligaidd, swnllyd, ar y teledu wrth i'r claf wingo mewn poen. Maen nhw'n gweithio'n gyflym – gall y claf fod yn cael trawiad ar y galon. Mae ei gymar yn gwylio'r cyfan gan ddal ei hanadl. Gyda help yr offer meddygol, mae anadl y dyn yn tawelu. Daw dwylo gofalus i'w symud yn gyflym i mewn i'r ambiwlans, ac mae'r golau glas yn boddi coch, gwyrdd ac aur y goleuadau bach yn y tai . . . y funud hon, does gan neb amser i'w hedmygu. Wrth wibio drwy'r strydoedd, mae ei gymar yn gweddïo am weld yr arwydd am Ysbyty Glangwili, gan fod pob eiliad yn cyfri. Yn nes ymlaen mae'r claf yn sefydlog, a'r panig a'r pryder yn tawelu rhywfaint. Mae'r ddau yn eu byd bach tyner eu hunain, yn eistedd gan sipian te llugoer mewn ystafell nad yw'n perthyn iddyn nhw. Maen nhw'n cydio dwylo ar draws y cynfasau ac yn poeni – heb wybod dim, ond yn obeithiol. Mae'r ddau yng nghwmni'r nyrsys clên sy'n aberthu eu Nadolig eu hunain, a chwsg, i ofalu'n dyner am y dyn hwn, ei gymar, a'r miloedd o bobl eraill ledled Cymru sy'n ddigon anffodus i fod yn colli eu prynhawn dydd Nadolig arferol.

7.
Mae pentwr o siacedi fflîs a chotiau'n gorwedd blith-draphlith ar dywod tamp traeth Aberystwyth wrth i'r nofwyr oedi cyn mentro i'r dŵr. Pwy fydd yn ddigon dewr? Mae cyffyrddiad cyntaf eu traed â'r dŵr rhewllyd yn anfon taranfolltau o'u bodiau i'r capiau gwlân am eu pennau.
"Trueni mod i heb wisgo wetsiwt!"
"Falle nad yw hyn yn syniad da wedi'r cwbl – dwi'n dal yn llawn dop ar ôl cinio!"
"Dewch nawr – allwn ni ddim torri'r traddodiad!"
1-2-3 – gan gydio dwylo rhewllyd, neidiant i mewn i'r tonnau gaeafol. Maen nhw'n sgrechian a chwerthin, gan floeddio fel plant, a'u brwdfrydedd heintus yn achosi i'r bobl sy'n eu gwylio ar y promenâd guro dwylo a'u hannog ymlaen. Wrth i gyrff y nofwyr gynefino ag oerni'r dŵr maen nhw'n plymio o dan y tonnau ac anelu am y lan, gan ddowcio ac arnofio wrth ddilyn mynd-a-dod cerrynt dydd Nadolig. Am eiliad fer maen nhw'n ddibryder unwaith eto, heb gael eu llorio gan broblemau bob-dydd, gan ebyst na biliau, na thro pwy yw hi i olchi'r llestri. Does dim byd yn bwysig wrth iddyn nhw wylio machlud yr haul, a'r dŵr yn eu dal yn y foment ddibwysau hon. Maen nhw'n bodoli mewn amser gorfoleddus, eu calonnau'n ysgafn a llawn ar yr un pryd. Cofia hyn, sibrydant.

8.
Mae'r 25^{ain} yn rholio'i garped disglair, a düwch y nos yn taenu dros y wlad. Caiff lampau aur eu goleuo, a bydd canhwyllau persawrus yn llenwi'r tŷ ag aroglau sbeislyd sinamon, afal a mwyar. Gweinir gweddillion oer y pryd a gafwyd yn gynharach heddiw ynghyd â map lliwgar o olifau, datys, cnau, caws, bisgedi, siocled, ffrwythau, picls, a holl wahanol flasau diwrnod yn llawn melyster. Oherwydd diwrnod y 'mwy' yw hwn – un mwy, beth am i ni rannu, ie pam

lai – diwrnod i stwffio heb deimlo'n euog. Mae tensiynau'r dydd yn diflannu, a gall sgyrsiau anorffenedig aros tan yfory. Ond ble mae Dylan? Mae ein ffrind a'i gi allan eto, yn cerdded ar noson Nadolig. Mae'r rhewllyd o oer a'i anadl yn cymylu o'i flaen ond, wedi'i lapio'n dynn yn ei sgarff – anrheg roedd ei fodryb wedi'i chrosio iddo – a gwisgo'r siwmper ddrud oedd ar ei restr Siôn Corn, mae'n cael ei gynhesu o'r tu mewn. Mae Dylan a'i gi yn trotian yn eu blaenau, gan gamu'n sionc o gwmpas y gymdogaeth.

Mae'r bachgen yn syllu ar awyr y nos, a sylweddoli ei fod wedi troi'n seren. Trysor sy'n parhau i serenadu gaeafau Cymreig â'i eiriau. Geiriau sy'n disgleirio'n llachar uwchben holl liwiau a cherddoriaeth odidog y Nadolig ledled Cymru.